



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymuned Penisarwaun
Penisarwaun
Caernarfon
Gwynedd
LL55 3BW**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Penisarwaun

Lleolir Ysgol Gymuned Penisarwaun ym mhentref Penisarwaun, mewn ardal wledig wrth droed yr Wyddfa tua phum milltir o Gaernarfon yn awdurdod lleol Gwynedd. Daw'r disgyblion o'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 60 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 5 oed meithrin. Mae dau ddsbarth oed cymysg yn yr ysgol.

Tros y tair blynedd ddiwethaf, tua 3% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 70% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 25% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r canran cenedlaethol, sef 21%.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ebrill 2016. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r staff yn creu amgylchedd croesawgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin ethos dysgu cefnogol a gweithgar i'r disgyblion. Nodwedd arbennig yw'r ethos teuluol sy'n sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn dda. Mae naws Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol gyda phwyslais amlwg ar ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol a'u hiaith ynghyd â gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy'n cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am safonau.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Mireinio gweithdrefnau monitro fel eu bod yn canolbwyntio'n fwy miniog ar effaith blaenoriaethau gwella ar ddeilliannau disgyblion
- A2 Darparu mwy o gyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithio'n fwy annibynnol
- A3 Sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain
- A4 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion cyfnod allweddol 2 i drin data ar draws y cwricwlwm

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau gwranddo a siarad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn canolbwyntio'n dda ac yn trafod eu tasgau â hyder cynyddol gan ddefnyddio geirfa eang a chywir. Maent yn awyddus i siarad am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod ymweliad y dinosor â'r dosbarth yn ystod y nos. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol ac yn defnyddio iaith gyfoethog a geirfa bwrpasol wrth drafod eu gwaith. Gallant fynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth drafod y digartref.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da yn gyson. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Enghraifft dda o hyn yw sut mae disgyblion yn cywain gwybodaeth am brofiadau faciwi yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gadarnhaol. Maent yn defnyddio geirfa ac iaith amrywiol yn gynyddol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn dechrau ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio brawddegau a geirfa addas i gefnogi'r gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu sgrïpt ar gyfer cymeriad dychmygol. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ac, erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at Arglwydd Penrhyn i ddatgan eu cefnogaeth i'r chwarelwyr lleol. Maent yn defnyddio geirfa aeddfed yn eu hysgrifennu ynghyd ag effeithiau a chymariaethau yn llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae rhan fwyaf yn y dosbarth derbyn yn rhifo set o ddinosoriaid ac yn eu didoli'n gywir yn ôl eu maint. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a data. Maent yn defnyddio'u medrau rhifedd yn hyderus i ddatrys problemau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth fesur yr amser mae iâ yn ei gymryd i doddi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth ddarganfod cost ymweliad â'r sinema. Maent yn

cymhwyso eu medrau rhesymu ac ymholi yn llwyddiannus mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth arbrofi ac archwilio pa mor gyflym mae parasiwt yn disgyn i'r ddaear.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol, er enghraifft wrth ddilyn hynt y dinosor yn y dosbarth. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi pa ffrwythau y gwnaethant eu defnyddio i greu llun yn null artist enwog. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau prosesu geiriau yn gelfydd i gyflwyno eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd am streic yn y chwarel. Maent yn defnyddio'r rhyngwrwd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, er enghraifft am y glaniad cyntaf ar y lleuad. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data i'w galluogi i ddilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n gwbl ddiogel o fewn yr ethos gofalgwr, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni ac yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae bron pob un yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chaiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn eu presenoldeb da a chyson. Mae bron pob un yn arddangos balchder mawr yn eu hysgol a'u cymuned, yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd.

Mae ymddygiad bron pob un disgybl mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhyngweithiad cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithio ymhlith disgyblion o bob oedran, wrth weithio a chwarae, yn nodweddiadol gref yn yr ysgol. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n gweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus ac annibynnol. Maent yn dechrau dylanwadu a rhannu eu syniadau wrth drefnu'r amrywiaeth o weithgareddau yn yr ardaloedd dysgu. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu dysgu eu hunain, i wneud penderfyniadau nac i fod yn ddysgwyr annibynnol wedi datblygu'n llawn. Lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n gwybod sut i fynd ati i wella eu gwaith eu hunain yn annibynnol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfrannu'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol yn ogystal â gwneud defnydd rheolaidd o'r trac rhedeg o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngwyd ac mae ymweliadau gan yr heddlu cymunedol yn atgyfnerthu hyn.

Mae llais y disgybl, trwy waith y cyngor ysgol, yn datblygu'n briodol. Mae'r aelodau yn ymwneud â'u gwaith yn frwdfrydig trwy amrywiaeth o weithgareddau. Trwy hyn, maent yn cyfrannu'n briodol at fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy redeg y siop ffrwythau a sicrhau bod cyflenwad dŵr ar gael i'w yfed yn ystod y dydd. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig wrth gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned ac mewn gwasanaethau yn yr eglwys. Maent yn cefnogi elusennau drwy godi arian ar gyfer ysgol mewn ardal dlawd yn Nepal ar ôl y ddaeargryn, er enghraifft. Maent yn ymfalchïo yn eu cyfraniad diweddar mewn dathliad canmlwyddiant Achub y Plant yn y gadeirlan. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae staff yn sefydlu perthynas waith agos a chlôs gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra'u bod yn gweithio, a rhyngweithio gyda'u cymheiriaid. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol ac yn hybu bron pob un disgybl i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o'u gwaith. Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar cadarn. O ganlyniad, mae gan lawer o'r disgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae pwyslais clir ar ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru ac sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. Enghreifftiau da o hyn yw gwaith disgyblion ar effaith y diwydiant llechi ar yr ardal a'u gwaith maes am y torgoch yn llyn Padarn. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu dealltwriaeth o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n datblygu medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae athrawon y cyfnod sylfaen wedi cryfhau'r ddarpariaeth yn effeithiol i sicrhau bod egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio. Mae pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion ar draws y meysydd dysgu trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn frwdfrydig wrth ymgymryd â'u gweithgareddau gan gydweithio a chyd-chwarae yn hapus gyda'i gilydd. Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o'r ardal ddysgu tu allan i gefnogi'r dysgu. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu profiadau dysgu yn seiliedig ar themâu diddorol sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn dda ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n cymhell disgyblion i ddysgu. Maent yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio'r wybodaeth honno'n gelfydd wrth gynllunio profiadau dysgu diddorol i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol i alluogi disgyblion i gwblhau eu tasgau ac elwa ohonynt. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Serch hynny, mae tueddiad ar adegau i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn cynllunio gweithgareddau sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn gyson, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y stiwdio deledu yn y ddarpariaeth barhaus. Mae hyn yn tanio eu dychymyg ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion wrth greu pítsa iach. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh i gywain a chyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 greu cronfeydd data a dadansoddi tystiolaeth er mwyn dilyn trywyddau ymholi penodol, wedi datblygu'n ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi ystyried y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn ofalus, gan ddechrau mynd i'r afael â bylchau yn ei ddarpariaeth bresennol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar pwrpasol i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith. Maent yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfle i ddisgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd Cymreictod, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas glos gynhaliol rhwng y disgyblion a'r staff yn nodwedd gref o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwarteisi bron pob disgybl a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu ac at eu hysgol. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrion ar anghenion eraill fel y digartref, er enghraifft. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddeall eu hawliau. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am waith elusen Achub y Plant yng Nghymru. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unigolion moesol a gwybodus.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu profiadau creadigol disgyblion, trwy wahodd haneswyr, beirdd a cherddorion lleol i gydweithio â nhw. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad bardd lleol i sbarduno disgyblion i ysgrifennu anthem i'r ysgol. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau yn yr ardal leol, i recordio mewn stiwdio broffesiynol ac i

gynnal gwasanaethau yn y gymuned. Enghraifft dda o hyn yw sicrhau cyfle i'r holl ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngerdd yn y Gadeirlan ym Mangor gan gydberfformio â cherddorion proffesiynol. Mae hyn yn hyrwyddo medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder disgyblion a'u gallu i gydweithio.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r staff i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar a darparu ar eu cyfer yn effeithiol. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol gyda'r cynorthwyr dysgu i ddarparu cefnogaeth a chymorth pwrpasol iddynt. Mae athrawon yn creu cynlluniau addysg unigol manwl i bob disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni a'u haddasu yn ôl y galw. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol a gydag asiantaethau allanol ac ysgolion y clwstwr i roi cyngor ac arweiniad i'r staff ac i gefnogi disgyblion penodol. Mae hyn yn sicrhau bod unigolion yn cael gofal ac arweiniad buddiol a bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn seiliedig ar ei pholisi drws agored. Mae hyn sicrhau bod rhieni'n gallu codi unrhyw bryderon yn amserol. Er enghraifft, yn dilyn adborth diweddar gan rieni, mae staff yn darparu mwy o weithgareddau corfforol i'r disgyblion sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hiechyd. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i rieni drafod cynnydd a datblygiad eu plant ac i atgyfnerthu'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi eu plant â'u gwaith.

Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau sylweddol gan gymdeithas cyfeillion yr ysgol sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion, er enghraifft wrth brynu adnoddau TGCh. Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei chysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae'r cysylltiadau amrywiol hyn yn cryfhau ymdeimlad y disgyblion o berthyn i'r gymuned, ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal leol yn llwyddiannus. Trwy gyfrwng y cyngor ysgol, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau gwerthfawr sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau o waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y cyngor wrth hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu medrau iaith Gymraeg eu cyd-ddisgyblion. Mae hyn wedi gwella ymwybyddiaeth y disgyblion o gerddoriaeth Gymraeg, er enghraifft. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac yn hybu cymuned glòs a chynhwysol. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar ddatblygu dysgwyr llwyddiannus a hyderus o fewn awyrgylch hapus a gofalgar. Mae hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth iddi ac mae'n ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn gweithio'n llwyddiannus gyda staff, y disgyblion, y llywodraethwyr, y rhieni ac aelodau'r gymuned ehangach i weithredu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn ymroddgar, yn cydweithio'n agos fel tîm, gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwyddol ac effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i

hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd yn rheolaidd i drafod cynnydd ac amcanion gwella. Mae hyn yn sicrhau bod systemau'r ysgol o ddydd i ddydd yn gweithio'n dda, yn rhoi ffocws clir i waith yr holl staff ac yn cyfrannu'n dda at sicrhau gwelliant parhaus.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn, ac mae'r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn gydwybodol drwy gysylltu blaenoriaethau hyfforddiant gyda blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyfforddiant ar y cyd, ynghyd â'r parodrwydd i gyd-gynllunio profiadau diddorol gydag ysgolion y clwstwr, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r staff rannu syniadau ac i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau i'r addysgu a'r dysgu, er enghraifft wrth wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen. Mae hefyd yn gymorth llwyddiannus i leihau baich gwaith athrawon.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n fuddiol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staff yn cynllunio'n fwriadus wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym myd addysg, er enghraifft wrth ymateb i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Enghraifft dda o hyn yw'r pwyslais amlwg ar ddatblygu cwricwlwm perthnasol ar gyfer yr ysgol yn ei chymuned. Ar draws yr ysgol, mae pwyslais amlwg ar hybu'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth a'u safonau yn y Gymraeg.

Mae gan yr ysgol brosesau addas i werthuso ei pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r rhan fwyaf o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r ysgol yn ymateb yn frwdfrydig i'w blaenoriaethau gwelliant ac adlewyrchir hyn yn y modd y mae'r ysgol wedi gosod cynllun llwyddiannus ar waith i wella meysydd penodol. Mae'r flaenoriaeth ar wella'r ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen wedi arwain at gyfoethogi'r profiadau dysgu a lefel yr her i'r disgyblion. Mae'r pwyslais ar ddatblygu rhifedd ar draws yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi codi safonau yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae adroddiadau monitro ar yr addysgu a'r dysgu yn arfarnol ac yn nodi'r agweddau i'w datblygu ymhellach. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn canolbwyntio'n ddigon miniog ar effaith blaenoriaethau gwella ar ddeilliannau disgyblion i sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â'r holl feysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Trwy gydweithio effeithiol â'r pennaeth, siarad â disgyblion a thrafod enghreifftiau o waith disgyblion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth yn dda i wneud penderfyniadau wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n llwyddiannus ac yn eu galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'w disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau ariannol gan gymdeithas cyfeillion yr ysgol ar gyfer prynu adnoddau fel cyfarpar TGCh, sy'n llwyddo i ehangu cyfleoedd i ymateb i ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2019